**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mr Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2011

Annwyl Weinidog

**CLA31 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011**

**A**

**CLA32 – Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod yr offerynnau statudol uchod yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiadau'r Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offerynnau hyn ar y sail "eu bod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu eu bod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiadau'r Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2011, ac maent wedi'u hatodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Byddwch yn sylwi bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod erthygl 5 y Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth anghyffredin sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am y Gorchymyn heb yr angen i gyflwyno Gorchymyn diwygio y byddai'r Cynulliad yn gallu craffu arno. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael eglurhad ynghylch a oes unrhyw fwriad gan Weinidogion ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau o dan erthygl 5? Os yw'r pŵer yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, a fyddech yn ystyried hybsyu Aelodau'r Cynulliad drwy gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y mater?

Rwy’n anfon copi o’r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a’r llythyr hwn i sylw Aelodau’r Cynulliad.

Yn gywir



**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol